**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon,
a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

28 Tachwedd 2022

Parthed: Cau Corgi Cymru

Annwyl Dawn

Yn ein cyfarfod ar 17 Tachwedd 2022, fe wnaethom ni drafod llythyr a anfonwyd atoch (ac a rannwyd gyda ni) ar 20 Hydref 2022 gan Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr ynghylch y penderfyniad diweddar i gau Corgi Cymru.

Rydym o'r farn bod lluosogrwydd yn y cyfryngau yn bwysig. Mae rôl y cyfryngau o ran dwyn y rhai sydd mewn grym yn atebol am eu gweithredoedd yn un o gonglfeini cymdeithas rydd, gyfiawn a sifil. Mae gan Gymru nifer gyfyngedig o safleoedd newyddion o gymharu â gwledydd eraill yn y DU; dim ond dyrnaid o'r rhain sy'n deitlau Cymraeg. Mae hyn yn golygu bod y grant Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg yn hanfodol bwysig i gefnogi datblygiad newyddiaduraeth cyfrwng Cymraeg brodorol. Felly, mae penderfyniad Newsquest i gau Corgi mor fuan ar ôl tranc ei chwaer deitl (National Wales) yn destun siomedigaeth a phryder i ni.

O ystyried y dyfarnodd Cyngor Llyfrau Cymru £400,000 i Newsquest (dros bedair blynedd) i gynorthwyo gyda chostau gweithredu Corgi Cymru, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r canlynol:

1. Hyd yma, faint o'r grant gafodd ei wario gan Newsquest ar Corgi Cymru?
2. Faint o'r grant sydd wedi'i adennill?
3. Os oes unrhyw ran o'r grant heb ei adennill, a fyddech cystal ag amlinellu pam hynny?

Mae'r syniad o gynyddu ac amrywio'r nifer o safleoedd newyddion cyfrwng Cymraeg yn rhywbeth yr ydym yn ei gefnogi'n gryf. At hynny, rydym yn awyddus i ddysgu mwy am yr amgylchiadau ynghylch sut y gwariwyd yr arian hwn, fel y gallwn, fel Pwyllgor, olrhain ei werth am arian. Mae hyn yn bwysicach fyth o ystyried y cyllid cyfyngedig sydd ar gael, ac o'r herwydd rydym o'r farn y dylai unrhyw arian a wariwyd gan Newsquest gael ei adennill cyn gynted â phosibl. Byddem yn erfyn arnoch i sicrhau bod unrhyw arian a wariwyd yn cael ei dalu'n ôl yn llawn.

Ers dod i gytundeb gyda Newsquest i ddirwyn gweithgareddau Corgi Cymru i ben, mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi cadarnhau y bydd yn fuan yn cyhoeddi'r broses ar gyfer ail-dendro gweddill cyllid y grant Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg o 2023 ymlaen. O ystyried y sefyllfa hon, byddem yn ddiolchgar o gael sicrwydd ynghylch pa gamau sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw'r sefyllfa a welwyd gyda Corgi Cymru yn cael ei hailadrodd. Hoffem wybod:

1. Pa lefel o ddiwydrwydd dyladwy a ymgymerir gan Gyngor Llyfrau Cymru o ran sefydlogrwydd ariannol derbynwyr grantiau a'u gallu i gyflawni'r ymrwymiadau a wnânt fel rhan o gais am grant?
2. Pa adolygiad y mae Llywodraeth Cymru neu Gyngor Llyfrau Cymru wedi'i gynnal yn dilyn y mater hwn gyda Corgi Cymru, a pha wersi a ddysgwyd? Byddem yn ddiolchgar o gael gweld copi o'r adolygiad hwn os yw wedi'i gynnal. Os nad yw wedi'i gynnal, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pam nad yw hyn wedi digwydd.

Yn olaf, mae'r gefnogaeth i newyddiaduraeth budd y cyhoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi'i chroesawu, er yn achlysurol ei natur, a heb ei hategu bob amser gan strategaeth glir. Byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu polisi cyffredinol a dull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru o ran cefnogi datblygiad gwasanaethau cyfryngau brodorol yng Nghymru.

O ystyried pa mor fuan y mae'r grant Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg yn cael ei ail-dendro, byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb i'n cwestiynau cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.